# **Cylchdaith – Bae Cemaes** (SH375937)

Gweler y map isod

## 1. Cemaes – Capel

Dechreuwch y daith gerdded tua'r Gogledd Ddwyrain o'r maes parcio. Cerddwch ar hyd y lôn nes cyrraedd cyffordd; trowch i'r dde a tua 30 metr ac i'r chwith dros gamfa garreg ar y llwybr troed. Rydym yn parhau ar hyd y llwybr hwn ar hyd waelod y dyffryn yn mynd heibio Cae Owen sy'n cynhyrchu gwin lleol o winwydd a blannwyd ar lethrau sy'n wynebu'r De. Parhewch drwy giât mochyn, dros gamfa yn mynd i ardd breifat, croeswch y lawnt a mynd i gae ar yr ochr arall. Croeswch y cae, drwy'r bwlch yn y wal garreg, ar draws bont ac i fyny ychydig o stepiau carreg dros y wal, ac i lôn wledig. (Gellir gwneud y daith gerdded hon yn fyrrach drwy droi i'r chwith oddi ar y lôn ychydig cyn trac at eiddo a adnabyddir fel Llanlleiana a pharhau mewn cyfeiriad gwrthglocwedd i'r llwybr arfordirol.)

## 2. Capel – Graig Wen


Trowch i'r dde ar hyd y lôn yma am tua milltir, rydym yn pasio capel a Chae Adda ar yr ochr dde, cyn dod at ddau lwybr sydd 30 metr oddi wrth ei gilydd ar ochr chwith y lôn; rydym yn cymryd yr un gyntaf, yn pasio drwy giât mochyn yn gyfagos at giât fferm. Rydym yn mynd i gyfeiriad Gogledd Ddwyreiniol yn dilyn ymyl cae i Borth Wen, daw'r cildraeth i'r golwg, yn pasio drwy giât mochyn arall a dilyn o amgylch ac i lawr yr allt i gyffordd gyda'r Llwybr Arfordirol. Yma rydym yn cadw tua'r chwith gan fynd heibio'r staciau simnai'r hen waith brics ar y dde. O'r man hwn parhewch i fyny'r allt ar y llwybr arfordirol, gyda mast a thriongl mordwyaeth ar y pentir a elwir yn Torllwyn ar y dde, a hen gêr weindio ar y chwith. Mae creigiau ar y chwith, Craig Wen gyda phwynt Trig Arolwg Ordnans ar y top a gyda golygfeydd da tua'r de ar draws yr ynys.

## 3. Graig Wen – Eglwys Llanbadrig

Parhewch ar hyd y clogwyni cyn mynd i lawr ac esgyn yn serth i mewn ac allan o geunant Porth Cynfor neu Hells Mouth ac at dwr gwylio ar Bentir Llanlleiana. O'r fan yma rydym yn mynd i lawr stepiau eto i Porth Llanlleiana, cyn dringo'n serth i fyny stepiau i barhau ein taith gerdded ar hyd y clogwyni. Daw Gorsaf Ynni niwclear Wylfa i'r golwg wrth i ni fynd am Eglwys Llanbadrig, gallwn fynd o amgylch y fynwent, yn dilyn y wal garreg i'r ffordd.

## 4. Eglwys Llanbadrig – Cemaes

Rydym nawr yn mynd i lawr y ffordd am bellter byr cyn troi i ffwrdd mewn pant a thrwy giât mochyn ar yr ochr dde, yn dilyn y llwybr arfordirol o amgylch y pentir gyda golygfeydd ar draws y bae i Gemaes ac at ddiwedd y daith gerdded.




Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.